Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Papur y Bwrdd

3 Ebrill 2014

Teitl y Papur	**"Creating the Foundation" – Adroddiad Blwyddyn 1 ar y Rhaglen Newid a Buddiannau**
Cyfeirnod y Papur	NRW B O 28.14
Noddwyd y Papur gan: **Awdur y Papur yw:**	Niall Reynolds **Niall Reynolds a Richard Ninnes**

Pwrpas y Papur:	Hysbysu'r Bwrdd o'r hyn a gyflawnwyd hyd yma o ran creu'r sylfaen ar gyfer corff llwyddiannus sy'n perfformio ar lefel uchel.
Argymhelliad:	Gofynnir i'r Bwrdd: Nodi'r gwaith a'r buddiannau a gyflawnwyd hyd yma.
Angen Penderfyniad:	Dim penderfyniad

Effaith: Dylid nodi – mae'n bosib nad yw pob pennawd yn berthnasol i'r pwnc	**Effaith ar yr Amgylchedd** / **Effaith ar yr Economi** / **Effaith ar Gymuned** / **Effaith ar Wybodaeth**. Mae creu corff unigol yn hanfodol i gyflawni'r Achos Busnes, i gyflawni canlyniadau gwell i'r amgylchedd, yr economi a chymunedau, wedi'i ategu gan wybodaeth dda.

1. CYD-DESTUN Y PAPUR

Cyflwynwyd papur i'r Bwrdd gennym ym mis Ebrill 2013 ar yr alldro o'r Rhaglen Cymru Fyw a'r heriau sy'n wynebu Rhaglen Newid Cyfoeth Naturiol Cymru i adeiladu'r sylfeini ar gyfer ein sefydliad. Bydd y Rhaglen Newid hon yn pennu ein galluogrwydd newydd ac annibynnol mewn ystod eang o brosesau a systemau busnes, seilwaith a datblygu'r sefydliad. Amlinellwyd yr holl dargedau ar gyfer blwyddyn gyntaf y rhaglen yng nghynllun busnes 2013/14. Roedd y Tîm Pontio'n gyfrifol am ddatblygu'r cynllun gwireddu buddiannau, cydlynu'r Rhaglen Newid ac olrhain y cynnydd.

Mae'r Rhaglen Newid yn bortffolio eang a chymhleth gydag elfennau sy'n ddibynnol ar Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Comisiwn Coedwigaeth yn ogystal â rhwng ei ffrydiau gwaith ei hun. Yn awr, ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf mae'n briodol i edrych yn ôl ar yr hyn a gyflawnwyd a'r hyn sydd heb ei gyflawni eto.

Mae'r papur hwn yn cyflwyno:

- Crynodeb o'r hyn a gyflawnwyd: galluogrwydd a ffyrdd newydd o weithio
- Gwireddu buddiannau a nodwyd yn yr achos busnes – y Cerdyn Sgorio Buddiannau
- Astudiaethau achos sy'n dangos sut yr ydym wedi cyflawni buddiannau.

2. DATGANIAD O GYFLAWNIADAU

Er mwyn creu sylfaen fel man cychwyn, roedd yn bwysig ein bod yn llunio ein set ein hunain o bolisïau, prosesau ac amodau ac i ddatblygu diwylliant "un sefydliad". Ar yr un pryd, rydym wedi sefydlu ein gwasanaethau a'n systemau ein hunain i'n galluogi i weithredu fel sefydliad annibynnol. Mae hwn yn ddarn pwysig o waith a oedd yn her i'w gyflawni, ond gwnaethpwyd cynnydd sylweddol.

3. Datblygiad y Sefydliad

Rydym wedi gosod y sylfeini ar gyfer yr ail flwyddyn yn natblygiad y sefydliad. Dechreuodd 13/14 gyda Throsglwyddo Ymgymeriadau (TUPE) yn llwyddiannus a sefydlu'r Tîm Arweinyddiaeth. Mae'r Bartneriaeth Gymdeithasol â'r Undebau Llafur yn gweithio'n dda a bu'n llwyddiannus wrth ddatblygu egwyddorion ar gyfer y Pecyn Gwobrwyo Cyflawn y byddwn yn ei weithredu yn 14/15. Rydym yn y broses o gwblhau'r un dull gweithredu ar gyfer Gwerthuso Swyddi ac yn recriwtio ein haen nesaf o reolwyr. Bydd yr 'Haen Reoli' hon yn rhoi adnodd allweddol i fwrw ymlaen â datblygu diwylliant un sefydliad. Rydym wedi gweithio â staff, gan gynnwys dwy sgwrs sefydliad cyfan, i ddatblygu ein gweledigaeth ac i hybu diwylliant cyffredin a'r gallu i lefaru ag un llais. Buom yn rhedeg cynllun ymadael gwirfoddol a helpodd i weld gostyngiad o tua 100 yn nifer y staff. Rydym yn gobeithio cynnal ymarfer tebyg y flwyddyn nesaf.

Bydd yr holl waith hwn yn datgloi'r potensial ar gyfer mwy o waith ar draws timau, integreiddio a hyblygrwydd cyflogaeth. Mae hyn yn hollol wahanol i'r sefyllfa a welwyd hyd yma, ble mae systemau a phrosesau etifeddiaeth wedi achosi aneffeithlonrwydd a chymhlethdodau i reolwyr.

4. Prosesau a systemau

Yn gyffredinol, rydym wedi creu systemau a galluogrwydd gwell, gan gynnwys gallu Gorfodi newydd, mewnrwyd newydd, wedi dylunio ateb ar gyfer y system Adnoddau Dynol a Chyllid

newydd, ac wedi sefydlu ein labordy dadansoddi cwbl weithredol ein hunain. Gyda'i gilydd rydym wedi cael gwared ar y ddibyniaeth ar y sefydliadau etifeddiaeth mewn 14 o wasanaethau.

Mae llawer o waith i'w wneud o hyd, yn enwedig i drosglwyddo'r holl ddata rydym ei angen o Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Comisiwn Coedwigaeth a chreu'r rhaglenni TG sydd eu hangen arnom. Bydd hyn yn ein galluogi i reoli ein galluogrwydd a chreu'r sylfaen i gyflawni mewn ffordd fwy cost effeithiol.

Rydym hefyd yn rhoi mwy o bwyslais ar y cwsmer, er enghraifft yn ein swyddogaethau cyngor cynllunio a thrwyddedu. Mae'r Ganolfan Gofal i Gwsmeriaid wedi llwyddo i sefydlu siop un stop yng Nghymru.

5. Seilwaith

Mae ein Strategaeth TGCh yn amlinellu dull arloesol a hyblyg sy'n defnyddio'r Cwmwl. Nod hyn yw gwasanaethu ein hanghenion yn well mewn ffordd fwy cost effeithiol na'r modelau a etifeddwyd. Rydym wedi datrys problemau Diwrnod 1 i wneud Microsoft 365 weithio ar y systemau etifeddiaeth, ond cymerodd hyn fwy o amser na'r disgwyl yn achos cyn staff y Comisiwn Coedwigaeth. Mae gwaith yn mynd rhagddo i symud yr holl staff oddi ar y seilwaith TGCh etifeddiaeth erbyn diwedd Rhagfyr 2014. Roedd yr oedi i sicrhau cysylltedd rhwng Asiantaeth yr Amgylchedd a CNC wedi effeithio ar hyn, ond rydym yn ei reoli drwy newid yr amserlen ar gyfer y trosglwyddo i wneud hyn yn gynharach yn achos cyn swyddfeydd CCGC a'r Comisiwn Coedwigaeth. Gall yr oedi wrth adael gwasanaeth Asiantaeth yr Amgylchedd effeithio ar ein proffil buddiannau.

Mae gennym Strategaeth Adeiladau ac rydym wedi manteisio ar gyfleoedd tymor byr, gan waredu 8 eiddo yn 2013/14 a fydd yn gostwng y costau cynnal ac yn dod â staff at ei gilydd. Rydym hefyd yn adolygu'r fflyd gerbydau i wneud y defnydd gorau ohoni ac i leihau costau.

6. Y rhaglen

Sefydlwyd y Rhaglen Newid o dan 4 portffolio cyffredinol:

- Adeiladu ein galluogrwydd unigol.
- Datblygu un sefydliad.
- Mabwysiadu dulliau newydd.
- Cynllunio Cyflawni Buddiannau ac adrodd a rheoli'r rhaglen.

Mae Atodiad 1 yn cynnwys adroddiad cynnydd mwy manwl, gan amlygu'r galluogrwydd arwyddocaol a gyflawnwyd, y prosiectau a'r cynnyrch sy'n sail iddynt a'r buddiannau a grëwyd.

7. BUDDIANNAU

Rydym wedi sefydlu cynllunio ac adrodd ar wireddu buddiannau fel rhan o'r broses gynllunio Corfforaethol a Busnes.

Mae'r Cerdyn Sgorio Buddiannau lefel uchel (Atodiad 2) wedi codi prif nodau buddsoddi'r Achos Busnes o'r achos busnes ac wedi cysylltu'r rhain â 5 Rhaglen Dda'r Cynllun Corfforaethol. Mae'r Cerdyn Sgorio'n cynnwys 25 o fesurau a fydd yn helpu i hybu ac i ddangos buddiannau'r Achos Busnes a gyflawnwyd gennym. Mae'n rhannu dangosyddion â'r Cynllun Corfforaethol ac mae'r targedau eraill wedi'u hymgorffori yn y Cynllun Busnes a Chynlluniau Cyflenwi'r Gyfarwyddiaeth. Mae'r rhain wedi'u cynllunio i ddangos yr ystod o welliannau sydd eu hangen, rhai sydd wedi'u cyflawni eisoes ac eraill sy'n olrhain cynnydd tuag at gyflawni canlyniadau gwell yn y tymor hir.

Rydym yn monitro'r sefyllfa ariannol ac anariannol bresennol yn erbyn amcan yr Achos Busnes i gyflawni £158M o werth ychwanegol am arian yn y 10 mlynedd cyntaf. Rydym yn amcangyfrif y byddwn, erbyn diwedd 2013/14, wedi creu arbedion (gan gynnwys lefelau cynhyrchu uwch) a fydd yn werth £5.5M y flwyddyn. Bydd hynny'n crynhoi i oddeutu £47M erbyn Blwyddyn 10. Rydym yn amcangyfrif y bydd newidiadau eraill sydd yn yr arfaeth yn cynyddu'r arbedion blynyddol i oddeutu £21M y flwyddyn erbyn 2018/19. Bydd yr arbedion ychwanegol hyn a ragwelir yn crynhoi i £123M erbyn Blwyddyn 10. Felly, rydym wedi canfod buddiannau ariannol ac anariannol y gellir eu cyflawni sy'n werth oddeutu £170M (47M+123M). Rhagamcan dros dro yw hwn a fydd yn cael ei fireinio wrth i'r gwelliannau busnes fynd yn ei blaen ac wrth i ni gael amcangyfrifon manylach o ran pa bryd y gallwn ryddhau arian o wasanaethau Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Comisiwn Coedwigaeth.

Yr enghreifftiau 'Buddiannau ar Dudalen' yn Atodiadau 3 yw'r cyntaf o gyfres o astudiaethau achos o'r fath o'r Gofrestr Fuddiannau a fydd yn dangos ystod y buddiannau a ffyrdd o'u creu. Mae enghraifft y Gwasanaethau Dadansoddi yn dangos bod cael ein galluogrwydd ein hunain yn ein galluogi i reoli costau, sut yr ydym wedi sicrhau swyddi i Gymru a'r dwysedd gwaith sydd ei angen i gyflawni newid. Mae'r Casgliad Sampl yn dangos sut y mae technegau gwella prosesau busnes yn arwain at brosesau mwy effeithlon a swyddi mwy boddhaus.

8. FFYRDD O WEITHIO

Mae sefydlu Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ein galluogi i ailfeddwl sut yr ydym yn gwneud pethau ac i fabwysiadu arferion gorau i greu prosesau sy'n effeithlon ac sy'n canolbwyntio ar y cwsmer.

Rydym wedi defnyddio cyfres o dechnegau gwella busnes, megis LEAN, meddwl systemau a Six Sigma, a ffyrdd newydd o ddatblygu allbynnau fel defnyddio dulliau "heini" o gyflawni prosiectau. Bu ymgysylltiad busnes da yn y rhan fwyaf o achosion ond bu'n anodd rheoli blaenoriaethau gwaith y dydd. Rydym yn bwriadu datblygu galluogrwydd y sefydliad yn y technegau hyn, i sicrhau bod gennym y sgiliau a'r diwylliant angenrheidiol i wella'n barhaus.

Rydym wedi ymdrechu i ddefnyddio technegau newid busnes sy'n seiliedig ar arferion gorau ac a ddysgwyd oddi wrth eraill gan gynnwys yr Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau, y Bathdy Brenhinol, Natural England, y Scottish Environment Protection Agency, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a'r Arolwg Ordnans.

9. RISGIAU A CHYFLEOEDD

Mae maint a chymhlethdod y rhaglen newid yn golygu bod rheoli risg yn allweddol i sicrhau ein bod ar y trywydd cywir. Rydym wedi comisiynu adolygiad Gateway 0 o'n rhaglen ac roeddem yn hapus â'r sgôr Melyn. Rydym wedi gweithredu argymhellion defnyddiol yn sgil yr adolygiad.

Bydd y gofrestr risg bresennol yn cael ei throsglwyddo i raglen y flwyddyn nesaf. Mae'r rhaglen newid a'i chyflawni hefyd wedi'u hadlewyrchu yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol.

Mae angen i ni sefydlu proses sy'n dangos ail fuddsoddiad yr enillion ariannol i ganlyniadau gwell ac i ddisgrifio sut y mae CNC wedi ein galluogi i fod yn fwy cydnerth ac i reoli'n llwyddiannus yr heriau a brofwyd eleni yn sgil llifogydd, y clefyd llarwydd a digwyddiadau eraill.

10. CYFATHREBU

Drwy gydol y flwyddyn gwnaethpwyd ymdrech lew i sicrhau bod staff yn cael eu hysbysu am yr hyn sy'n digwydd, er enghraifft drwy ddefnyddio'r bwletinau newid misol, y fewnrwyd a phosteri.

Cafwyd cydnabyddiaeth yn gynnar bod cyfathrebu'n cynnwys cysylltiadau wyneb yn wyneb hefyd ac ymgysylltu ac arweinyddiaeth gan reolwyr llinell. Mae gennym sesiynau briffio rhithiol gan Emyr Roberts ar gyfer y Tîm Arweinwyr. Mae ymgysylltu wyneb yn wyneb â staff wedi cynnwys sesiynau briffio ar y Pecyn Gwobrwyo Cyflawn, y Sgyrsiau a'r cannoedd o staff sy'n gweithio â'r Tîm Pontio ym mhob rhan o'r busnes.

11. RHAGOLWG AR GYFER 2014/2015

Galluogrwydd Annibynnol

- Seilwaith TGCh CNC ar gael ym mhob swyddfa a depo
- Sefydlu ein cyfres gyflawn ein hunain o gymwysiadau TGCh gweithredol
- Cwblhau'r broses trosglwyddo data
- Cwblhau GIS
- Gweithredu'r system Cyllid ac Adnoddau Dynol
- Trosglwyddi telemetri i rwydwaith CNC
- Cwblhau'r gwaith o ddatblygu'r wefan
- Gadael y rhan fwyaf o'r gwasanaethau rheoleiddiol a ddarparwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd

Un Sefydliad:

- Gweithredu'r pecyn gwobrwyo cyflawn
- Cwblhau ailstrwythuro sefydliadol
- Cwblhau'r broses o waredu adeiladau dros ben yn rhan 1 y strategaeth
- Gweithredu'r system Iechyd a Diogelwch newydd
- Parhau i gyflwyno'r brand newydd
- Adolygu a rhesymoli'r fflyd o gerbydau
- Strategaeth gaffael a fframwaith a threfniadau contract newydd.

Dulliau Newydd:

- Ymgorffori'r byrddau draenio mewnol
- Dull newydd o drwyddedu Ynni Dŵr
- Ymgorffori Dull Ecosystem
- Paratoi ar gyfer dyletswydd newydd arfaethedig ar gyfer Cynlluniau Rheoli Adnoddau Naturiol

Cyflawni buddiannau a rheoli rhaglenni:

- Cwblhau'r broses o adael pob un o wasanaethau pontio Asiantaeth yr Amgylchedd a FCGB
- Parhau i gyflawni'n unol â'r cerdyn sgorio buddiannau
- Cynllunio ac olrhain buddiannau a chydnabod cyflawniadau
- Rheoli Newid Busnes a chynnal trefniadau cyfathrebu da.

12. CRYNODEB AC ARGYMHELLIAD

Mae'r papur hwn yn cyfeirio at gyflawni'r amcanion pontio a amlinellwyd yng Nghynllun Busnes 13/14 ac a droswyd i'r Rhaglen Newid. Mae llawer o waith i'w wneud eto, ond mae'r arwyddion

ar hyn o bryd yn dangos ein bod ar y trywydd i gyflawni buddiannau'r Achos Busnes. Yr her fwyaf yw cefnu ar ddulliau gweithio'r cyrff etifeddiaeth i greu sefydliad cydlynus a all gyflawni canlyniadau gwell i Gymru.

Gallwn fod yn sefydliad sy'n perfformio'n wirioneddol effeithiol, os gallwn fanteisio ar y cyfle i wneud ein hunain yn fwy effeithlon ac i ganolbwyntio mwy ar y cwsmer. Bydd rhaglen waith 2014/1015 yn parhau i ddatblygu galluogrwydd y sefydliad tra'n dechrau "datgloi'r potensial" sy'n dod yn sgil creu CNC.

CYNNYDD YN 2013/14

1 – GALLUOGRWYDD FEL SEFYDLIAD ANNIBYNNOL:

Gorfodaeth	Ailsefydlu galluogrwydd a chynnal dilyniant busnes ar gyfer gorfodi: • Cronfa ddata gwybodaeth newydd • Mesurau diogelwch i gadw mynediad at Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu • Cwblhau gwarantu Lefel 1 cyn staff CCGC a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru
Gwasanaethau Dadansoddi	Wedi sefydlu ein Gwasanaethau Dadansoddi ein hunsain yn Labordy Llanelli: • Ail-ffitio a hyfforddiant i gael achrediad UKAS ar gyfer 35 o brofion newydd • System Gwybodaeth Labordy newydd. • Sicrhau 37 o swyddi i Gymru a'r potensial i arbed £1M erbyn Blwyddyn 10.
System Cyllid ac Adnoddau Dynol	O fewn y targed i sefydlu galluogrwydd cyn cau Asiantaeth yr Amgylchedd ar 1 Tachwedd 2014, a symud cyn staff CCGC a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru i'r system erbyn diwedd Mawrth 2015: • Wedi caffael y system 'Agresso' ac wedi cwblhau glasbrint a dylunio ateb. • Arbedion blynyddol o £721k ar gostau rhedeg o 15/16 ymlaen.
TGCh	O fewn y targed i sicrhau galluogrwydd TGCh annibynnol gyda'r holl staff ar rwydwaith CNC erbyn Rhagfyr 2014: • Rhwydwaith TGCh CNC wedi'i osod a staff wedi'u trosglwyddo'n rhannol mewn 19 o 54 safle. • Mae'r bwriad i gael pawb ar rwydwaith CNC yn ystod 2014 o fewn y targed, ond bu'n rhaid i ni newid yr amserlen ar gyfer gadael seilwaith TGCh Asiantaeth yr Amgylchedd o Fai i Ragfyr 2014. • Desg Wasanaeth CNC wedi'i sefydlu. • System Rheoli Dogfennau (DMS) ar waith. • Y Fewnrwyd wedi'i hail ddylunio. • Osgoi costau sylweddol drwy ddatblygu atebion newydd CNC yn hytrach nag efelychu systemau etifeddiaeth: e.e. wedi osgoi £3M drwy beidio â throsglwyddo 300 o gymwysiadau o Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Comisiwn Coedwigaeth. • Mae maint y gwaith sydd ei angen i ddatblygu ein cymwysiadau TGCh busnes yn golygu ein bod yn cynyddu adnodd 'Ffatri Datblygu Cymwysiadau' i sicrhau ein bod yn cyflawni'n ddigon cyflym yn ystod 2014/15.
Rheoli Gwybodaeth a Hysbysrwydd	Wedi sefydlu sylfeini ar gyfer rheoli gwybodaeth a hysbysrwydd a throsglwyddo data i CNC: • Strategaeth Rheoli Gwybodaeth a Hysbysrwydd wedi'i chwblhau • Fframwaith Llywodraethu Gwybodaeth ar waith • Mapio llif data, system daliadau a throsglwyddo. • Ateb GIS dros dro, strategaeth a gwaith wedi dechrau ar fodel tymor hir.
Canolfan Gofal i Gwsmeriaid	Wedi'i sefydlu ac yn cyrraedd safonau perfformiad (yn ateb 99% o alwadau o fewn 15 eiliad):

	• Wedi datblygu system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (CRM). • Yn cynnig y pwynt cyntaf a'r unig bwynt cyswllt o fewn y Ganolfan Gofal i Gwsmeriaid ar gyfer oddeutu 50,000 o alwadau • Systemau TG i ymdrin â chofrestriadau ar gyfer Cludwyr a Broceriaid ac eithriadau Dŵr a Gwastraff
Trwyddedu	Gwell pwyslais ar y cwsmer ac wedi dechrau gweithio ar swyddogaeth drwyddedu newydd, annibynnol a symlach cyn cau Asiantaeth yr Amgylchedd ym mis Mawrth 2015: • Bydd yn well yn achos ymgeiswyr sydd angen nifer o drwyddedau • Cynllun Cyhoeddi newydd ar gyfer trwyddedu • Ymchwil i brofiad y cwsmer wedi'i gomisiynu. • Wedi symud 14 o wasanaethau a ddarparwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Comisiwn Coedwigaeth erbyn diwedd mis Mawrth. Rydym wedi gorfod parhau i redeg nifer am flwyddyn arall, yn bennaf am fod y broses o wahanu data'n fwy o her na'r disgwyl.
Cyngor Cynllunio	Egwyddorion a phroses newydd ar gyfer swyddogaeth cyngor cynllunio sy'n rhoi mwy o bwyslais ar y cwsmer ac sy'n symlach. • Prosiect gwella busnes LEAN gyda staff ac ymgynghori allanol. • Y potensial ar gyfer lefelau cynhyrchu uwch, sy'n werth dros 0.5M y flwyddyn.
Rheoli Perygl Llifogydd	Wedi datblygu cynigion ar gyfer swyddogaeth rheoli perygl llifogydd CNC, gan gynnwys trosglwyddo o wasanaethau interim Asiantaeth yr Amgylchedd i CNC ar ddiwedd 14/15.
Ymateb i Ddigwyddiadau	Trefniadau annibynnol i ymateb i ddigwyddiadau a chynlluniau parhad busnes ar waith.

2 – UN SEFYDLIAD:

Staff a strwythurau:	Ffurfio'r sefydliad newydd gydag un set o werthoedd a chyflawni'r arbedion 3 i 1 cychwynnol: • Wedi llofnodi Cytundeb Partneriaeth â'r Undebau Llafur. • Staff wedi'u trosglwyddo'n llwyddiannus i CNC drwy TUPE. • Y timau gweithrediaeth a rheoli yn eu lle, gyda datblygiad parhaus. • Recriwtio'r Haen Reoli ar waith gyda'r nod o gwblhau'r broses ym Mehefin. Ein nod oedd cwblhau hyn yn ystod 2013/14. • Timau wedi'u neilltuo i reolwyr newydd. • Effeithlonrwydd 3 i 1 wedi dechrau gyda 119 o staff yn gadael ar VES, gan arbed £4.2M y flwyddyn. • Archwiliad sgiliau wedi'i gwblhau a chynllun gweithredu wedi'i baratoi. • 2 ddigwyddiad sgwrsio ar gyfer holl staff y sefydliad. • Wedi sefydlu'r cynllun Prentisiaeth TGCh cyntaf mewn Partneriaeth â Microsoft yng Nghymru.
Pecyn Gwobrwyo Cyflawn	Cynigion wedi'u datblygu mewn partneriaeth â'r Undebau Llafur • Gweithdai wedi'u cynnal gyda dros 500 o staff yn bresennol. • Anelu at gael y Pecyn Gwobrau Cyflawn yn barod erbyn canol Ebrill er

	mwyn i'r Undebau Llafur ymgynghori a chynnal pleidlais â'u haelodau.
Adeiladau	Rhesymoli tymor byr wedi dechrau a Strategaeth Adeiladu tymor hwy ar waith: • Gwaredwyd yr 8 eiddo cyntaf, gan arwain at arbedion blynyddol o £210k (gwerth £1,890 hyd Flwyddyn 10) a £400k o dderbynion cyfalaf.
Brand a Hunaniaeth	Cyflwyno brand a hunaniaeth CNC a gwaredu brandiau'r sefydliadau etifeddiaeth. • Brand CNC mewn safleoedd allweddol, offer amddiffynnol personol (PPE), cerbydau a chyhoeddiadau newydd. • Llawlyfr Brand yn barod.
Llywodraethu	• Polisïau corfforaethol a chynlluniau dirprwyo newydd wedi'u sefydlu. • Wedi cyflawni achrediad ISI 140001 ar gyfer ein EMS newydd.

3 – DULLIAU NEWYDD:

Cynllunio Corfforaethol a Busnes	Cynllun Corfforaethol newydd ar gyfer 2014-2017: • Mae ymgynghori eang wedi helpu i feithrin cysylltiadau allanol.
Rheoli Adnoddau Naturiol	Sefydlu sylfeini ar gyfer cymhwyso'r dull ecosystem yn ymarferol a pharatoi ar gyfer cynlluniau rheoli adnoddau naturiol: • 6 astudiaeth achos ar gyfer y dull ecosystem. • 3 threial ar waith ar gyfer cynllunio rheoli adnoddau naturiol. • Cyngor i Lywodraeth Cymru ar Fil yr Amgylchedd.
Gwella Prosesau Busnes	Wedi dangos gwerth dulliau gwella prosesau busnes (LEAN) a'r cyfle enfawr i wella lefelau cynhyrchu a sicrhau gwasanaeth gwell i gwsmeriaid. • Cynlluniau Gwella Prosesau Busnes wedi'u rhoi ar waith mewn gwaith perygl o lifogydd, samplo a monitro a rheoli data sydd wedi arwain at brosesau symlach a mwy effeithlon.

4 – GWIREDDU BUDDIANNAU A RHEOLI RHAGLENNI:

Buddiannau Arian	O fewn y targed i ragori ar y safle gwireddu buddiannau ariannol ac anariannol ar ddiwedd 2014/15. Rhagwelir y bydd gwaith a gyflawnwyd neu a ddechreuwyd yn 13/14 yn cynhyrchu arbedion a fydd yn crynhoi i £103m erbyn Blwyddyn 10. Mae hyn yn cymharu â'r ffigur achos busnes diwygiedig o £93.6m am y cam hwnnw o wireddu buddiannau.

Cynllunio ac adrodd am fuddiannau	Mae cynllunio ac adrodd am fuddiannau wedi'i ymgorffori yn y broses cynllunio Busnes a Chorfforaethol: • Targedau cynllun busnes 2013/14 wedi'u cyflawni • Cerdyn Sgorio Buddiannau (Gweler Atodiad 1). • Cofrestr o Fuddiannau • Buddiannau ar grynodebau tudalen (gweler enghraifft yn Atodiad 2).
Rheoli Rhaglenni	Adolygiad Gateway ym mis Rhagfyr 2013 wedi rhoi statws Melyn i ni.
Gadael Gwasanaeth Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Comisiwn Coedwigaeth	Cwblhawyd 14 o'r 23 ymadawiad a gynlluniwyd, gan ryddhau amcangyfrif o £1.7M (10/18 Asiantaeth yr Amgylchedd a 4/4 Comisiwn Coedwigaeth).